



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

FFURFLEN, DOGFENNU

Menter i ailgynnau cysylltiadau a rhwydweithiau pwysig Horizon Ewrop (Cymru Ystwyth)

Mae'r fenter ar agor i geisiadau nawr, ond mae pwyslais ar gyflwyno hawliadau am arian sydd i'w wario erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Cyhoeddwyd gyntaf: 22 Tachwedd 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 22 Tachwedd 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/mentor-i-ailgynnau-cysylltiadau-rhwydweithiau-pwysig-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cefndir

Y Fenter

Costau Cymwys

Cyflwyno ceisiadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/menter-i-ailgynnau-cysylltiadau-rhwydweithiau-pwysig-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cefndir

Mae **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i Gymru ar lwyfan y byd ac yn ymrwmo i *'gysylltiadau economaidd ac ymchwil agosach â'r UE'*. Mae cydweithio â gwledydd a rhanbarthau eraill yn ychwanegu gwerth at ddatblygu economaidd yng Nghymru drwy alluogi partneriaid i gynyddu gweithgarwch, sicrhau màs critigol a chodi proffil. Mae cydweithio yn rhoi cyfle i gyfnewid syniadau ac arferion gorau, i ymestyn arloesedd a chystadleurwydd ac i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n croesi ffiniau. Rydym am weld "Cymru Ystwyth" sy'n edrych tuag allan at bartneriaid presennol a phartneriaid y dyfodol yn y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a rennir a mynd i'r afael â'n heriau cyffredin.

Mae **Strategaeth Ryngwladol a Chynllun Gweithredu Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol sy'n cael Blaenoriaeth** Llywodraeth Cymru yn nodi'r angen i dargedu sectorau, rhanbarthau a rhwydweithiau pwysig. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd Femoranda Cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau strategol cyfatebol gyda phartneriaid rhanbarthol sy'n cael blaenoriaeth.

Mae **Fframwaith Môr Iwerddon** yn llywio ac yn dylanwadu ar gamau gweithredu sydd â'r nod o gynyddu cydweithio economaidd ar draws ardal Môr Iwerddon ac o'i hamgylch. Mae'n darparu cyfeiriad strategol yn y tymor byr a llwybr at nodau tymor canolig. Mae'r Fframwaith yn anffurfiol, yn hyblyg a bydd yn esblygu, ond bydd yn ategu'r holl bolisiâu, strategaethau a rhaglenni perthnasol, gan gynnwys **Strategaeth Ryngwladol** Llywodraeth Cymru, **Iwerddon-Cymru: Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd** a **rhaglenni Interreg 2021-2027**.

Yn rhedeg hyd at 2027 gyda chyllideb o oddeutu €100 biliwn, **Horizon Ewrop** yw'r rhaglen drawswladol fwyaf erioed sy'n cefnogi ymchwil ac arloesi. Mae'n cynnig cyfleoedd sylweddol i Gymru barhau'n weithredol ac yn ddylanwadol fel

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/menter-i-ailgynnau-cysylltiadau-rhwydweithiau-pwysig-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

partner trawsadol, gan gynyddu ein gallu i atynnu talent a chynyddu effeithiolrwydd ein hymchwil. Mae Llywodraeth Cymru yn annog ymchwilyr ac arloeswyr yng Nghymru i ddatblygu ceisiadau, ac i sefydliadau ledled Ewrop gymryd mantais o statws **Gwlad Gysylltiol y DU** er mwyn gweithio gyda phrif wyddonwyr Cymru, busnesau, y sector cyhoeddus a'r gymdeithas ddinesig.

Fodd bynnag, mae'r oedi mawr o ran cyrraedd statws gwlad gysylltiol wedi achosi ansicrwydd ac wedi gwanhau cysylltiadau a rhwydweithiau. Mae angen amlwg i ailgynnu ein cysylltiadau a'n rhwydweithiau Horizon Ewrop.

Y Fenter

Mae'r ddogfen hon yn annog ceisiadau gan sefydliadau yng Nghymru sydd am ddatblygu cysylltiadau newydd neu adnewyddu cysylltiadau presennol gyda rhanddeiliaid a rhwydweithiau Ewropeaidd gyda'r bwriad o ymgeisio i Horizon Ewrop. Canolbwyntir ar wariant a hawlir erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Mae'r cyllid sydd ar gael yn ychwanegol i'r cymorth parhaus sydd ar gael gan **SCoRE Cymru**.

Bydd cais cryf yn adlewyrchu'r cyd-destun strategol a nodir uchod ac yn:

- Cefnogi ac adeiladu cysylltiadau strategol â rhanbarthau pwysig yr UE megis Iwerddon, Gwlad y Basg (Euskadi), Baden Württemberg, Llydaw, Fflandrys, Catalonia a Galisia.
- Cynnwys sefydliad neu rwydwaith pwysig a pherthnasol yn yr UE.
- Cynyddu dealltwriaeth am Horizon Ewrop yng Nghymru, ac ymwybyddiaeth ohono, ac yn ysgogi cyfranogiad mewn ymchwil ac arloesi rhyngwladol.
- Adeiladu ar y gweithgarwch presennol sydd â'r potensial i dyfu.
- Darparu llwybr clir at wneud cais cystadleuol am gyllid gan Horizon Ewrop.

Rhaid i bob cais ddangos hyfywedd a gwerth am arian.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/menter-i-ailgynnu-cysylltiadau-rhwydweithiau-pwysig-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Nid oes trothwyon grant sefydlog, ond yn seiliedig ar brofiad, ar gyfer prosiectau bach, fel teithio, ymgysylltu a gwasanaeth ymgynghori, dylai ymgeiswyr gadw mewn cof y gallai hyd at £5,000 fesul cais gael ei ystyried yn rhesymol.

Gall ymgeiswyr gyflwyno prosiectau sy'n datblygu cysylltiadau ag un neu fwy o'r rhanbarthau a enwir neu i gefnogi un neu fwy o geisiadau posibl i Horizon Ewrop; nid oes angen cyflwyno ceisiadau lluosog. Budd economaidd i Gymru yw sail y fenter ariannu hon, ond nid oes cyfyngiad ar y partneriaid posibl sydd am sicrhau'r budd hwnnw. Fodd bynnag, byddai o leiaf un partner Ewropeaidd fesul cais yn ddisgwyliedig.

Gall y fenter hon gefnogi hyd at 100% o'r costau cymwys lle mae cyfiawnhad dros hynny, ond mae'n annog manteisio ar gyllid arall lle bynnag y bo modd.

Mae'r gyllideb a ddyrennir ar gyfer y fenter hon hyd at £50,000 ond byddwn yn ystyried ymrwymadau eraill a thanwariant adeg y penderfyniad. Os bydd y galw'n fwy na'r arian sydd ar gael, defnyddir 'rhestr wrth gefn' a chaiff ymgeiswyr eu hannog i nodi a ellir cynnal eu gweithgarwch ar ôl mis Mawrth 2024.

Costau Cymwys

Oni nodir yn benodol yn yr alwad hon, mae [rheolau a gweithdrefnau Cymru Ystwyth](#) yn berthnasol.

Gall y gwariant gynnwys gweithgarwch partneriaid nad ydynt o Gymru, ar yr amod bod y partner yng Nghymru yn ysgwyddo'r costau a hawlir a'u bod yn cynrychioli gwerth ychwanegol. Fodd bynnag, rydym yn eich cynghori i gysylltu â [Thîm Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru](#) yn gynnar yn y broses o ddatblygu eich cais er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio.

Rhaid gwario'r grant a'i hawlio cyn 31 Mawrth 2024. Lle y rhagwelir

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/menter-i-ailgynnau-cysylltiadau-rhwydweithiau-pwysig-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gweithgarwch blynyddol neu hirdymor yn ddiweddarach, gellir rhoi'r gweithgaredd perthnasol ar y 'rhestr wrth gefn' i'w ystyried yn y dyfodol ond nid oes unrhyw sicrwydd o gymorth.

Er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol a diffyg hyblygrwydd, nid ydym yn nodi rhestr gaeedig o gostau cymwys, ond rhaid i gostau fod yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo, gweithredu a lledaenu'r prosiectau y cytunwyd arnynt drwy'r broses ymgeisio a'r cynnig grant ysgrifenedig. Rhaid iddynt fod yn rhesymol, yn wiriadwy a chael eu hysgwyddo gan yr ymgeisydd. Edrychwch ar reolau a gweithdrefnau Cymru Ystwyth i gael rhagor o fanylion. Rydym hefyd yn cynghori eich bod yn canolbwyntio ar eitemau gwariant uwch gyda thrywydd tystiolaeth cryf er mwyn symleiddio'r broses hawlio.

Nid yw'r costau yr eir iddynt cyn y dyddiad cymeradwyo yn gymwys oni bai bod Tîm Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru yn cadarnhau fel arall yn ysgrifenedig.

Cyflwyno ceisiadau

Rydym yn agored i geisiadau nawr. Cynghorir ymgeiswyr i drafod eu cynigion gyda Tîm Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru cyn eu cyflwyno, e-bostiwrch: CymruYstwyth@llyw.cymru.

Bydd ceisiadau'n cael eu barnu yn unol â nodau'r fenter hon a bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y penderfyniad terfynol. Efallai y byddwn yn gofyn am gyngor arbenigol a chyingor gan gydweithwyr polisi perthnasol yng Nghymru neu mewn gwledydd/rhanbarthau perthnasol. Ymdrinnir â cheisiadau cymwys ar sail 'y cyntaf i'r felin' ond prin fydd y cyfle i gael eglurhad pellach. Gall ceisiadau nad ydynt yn cael eu hystyried yn gryf fel y'u diffinnir yn y ddogfen hon gael eu rhoi ar y 'rhestr wrth gefn' i ganiatáu cyfleoedd ar gyfer ceisiadau eraill. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn mabwysiadu dull portffolio er mwyn rheoli cydbwysedd risg ac ystod y canlyniadau; gallai hyn effeithio ar y gyllideb sydd ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/mentor-i-ailgynnu-cysylltiadau-rhwydweithiau-pwysig-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gael a'r math o brosiectau a gefnogir. Felly, anogir ymgeiswyr i drafod â Thîm Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru yn gynnar yn y broses i sicrhau bod cryfderau eu cynnig yn cael eu deall.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/menter-i-ailgynnau-cysylltiadau-rhwydweithiau-pwysig-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).